
ROYAL FOUNDATION
Centre for
Early Childhood

Briff Gwyddonol

# Cefnogi dysgu cynnar

**Mae'r Esboniwr y Ganolfan Plentyndod Cynnar hwn am sut y gall oedolion gefnogi dysgu plant yn disgrifio gwerth darparu lefel o gymorth dan arweiniad, sy'n cael ei alw'n sgaffaldio.**

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r wyddoniaeth y tu ôl i'r animeiddiad hwn.



**Gwyliwch y Gyfres Esbonio ar wefan y Ganolfan Plentyndod Cynnar**
centreforearlychildhood.org/the-explainer-series/

## Gwybodaeth am sgaffaldio

1. Mae sgaffaldio'n digwydd pan fydd oedolion yn cefnogi dysgu plant trwy eu helpu i wneud rhywbeth drostyn nhw'u hunain. Pan fyddwn ni'n sgaffaldio ar gyfer plentyn, rydyn ni'n gwneud tasg yn haws iddo, neu'n addasu lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu, ar sail anghenion a galluoedd y plentyn. Mae hyn yn cefnogi'r plentyn i feistroli sgiliau newydd, ac yn osgoi oedolion yn gwneud pethau dros y plentyn neu'n rhoi gormod o gyfarwyddyd[1].
2. Mae sgaffaldio yn drosiad sy'n seiliedig ar sut mae sgaffaldiau ffisegol yn cael eu gosod o amgylch adeilad pan fydd yn cael ei adeiladu a'u tynnu wrth i'r adeilad gael ei gwblhau. Yn yr un modd, darperir sgaffaldiau wrth

i blant ddatblygu a gellir eu tynnu'n raddol wrth iddyn nhw ddysgu'r gallu i feistroli sgiliau newydd. Er y gallai sgaffaldiau o amgylch adeilad gael eu hadeiladu a'u tynnu, gall gweithgareddau plentyn newid o eiliad i eiliad wrth i ni addasu i'w anghenion a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Yn hytrach nag adeiladu strwythur ansymudol mawr, mae'n debycach felly i osod astell ar lawr i'w gefnogi, gan ei helpu i gamu i gyfeiriad newydd.



**"Gall sgaffaldio fod ar sawl ffurf gan gynnwys: symleiddio tasg, rhoi help llaw neu ddefnyddio arweiniad llafar."**

3. Gall sgaffaldio fod ar sawl ffurf gan gynnwys: symleiddio tasg, rhoi help llaw neu ddefnyddio arweiniad llafar. Efallai y byddwn yn darparu anogaeth neu'n defnyddio "cwestiynau arweiniol" i helpu plant i ddod o hyd i atebion a datrysiadau yn annibynnol. Mae'r technegau hyn yn helpu plentyn i gadw ffocws a hefyd yn ategu ei ymreolaeth. Er enghraifft, os yw plentyn yn gwneud jig-so, gallech ofyn, "Beth wnes ti'r tro diwethaf wnaeth dy helpu i orffen y jig-so?", neu "Beth am i ni ddechrau gyda'r darnau cornel, fe ddylen nhw fod yn haws, alli di ddod o hyd iddyn nhw?"


4. Mae plant yn dysgu orau mewn 'parth Elen Benfelen' lle nad yw tasg yn rhy anodd nac yn rhy hawdd. Mae sgaffaldio'n helpu plant i ddatblygu galluoedd sydd yn y "Parth Datblygiad Agosaf" – sgiliau a galluoedd newydd nad ydyn nhw'n aeddfed eto ond sydd yn y broses o aeddfedu ar hyn o bryd[2]. Er enghraifft, os yw plentyn yn dysgu cerdded, gallai rhiant ddal y ddwy law i gefnogi'r sgil hwn sy'n datblygu. Dydy dal llaw yn y modd hwn ddim o fudd os nad yw'r plentyn yn gallu sefyll eto, ac nid yw'n helpu'r plentyn os yw eisoes yn cerdded yn ddiogel. Mae'n sgaffald defnyddiol tra bod y plentyn yn datblygu'r gallu i gerdded yn annibynnol. Wrth gwrs, mae dal llaw yn dal i gyflawni swyddogaethau eraill, megis cynnig cysur a diogelwch.

5. Er mwyn sgaffaldio plentyn yn effeithiol, rhaid i ni ddeall beth mae'n gallu ei wneud o bosibl, cydnabod y gefnogaeth sydd ei hangen arno, ac addasu ein hunain yn unol â hynny. Mae hyn yn gorgyffwrdd â chysyniadau eraill yn y Gyfres Esboniwr. Er mwyn sgaffaldio plentyn yn effeithiol, mae'n rhaid i ni fod yn sylwgar tuag ato. Mae sgaffaldio'n gorgyffwrdd ag ymatebolrwydd amodol, wrth i oedolion addasu eu hymddygiadau a'u hymatebion i anghenion plentyn mewn modd sensitif.

# Mae sgaffaldio'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Gall sgaffaldio gefnogi datblygiad ystod eang o alluoedd, gan gynnwys iaith, sgiliau echddygol a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

### Meithrin ein perthnasoedd



Gall sgaffaldio helpu plant yn eu rhyngweithiadau cymdeithasol[3]. Er enghraifft, gallai rhieni gydnabod bod eu plentyn yn nerfus wrth fynd i chwarae gyda phlant newydd, a hwyluso rhyngweithiadau cymdeithasol, gan ddarparu ciwiau, awgrymiadau ac anogaeth. Er enghraifft, "Edrych ar injan dân Mo, rwy'n credu efallai ei fod e'n hoffi cerbydau hefyd, fel ti. Beth am ddangos dy gar heddlu iddo fe?"

Trwy sgaffaldio perthnasoedd cyfoedion, gall oedolion helpu plant i fagu hyder ac empathi.

Mae sgaffaldio'n cefnogi'r berthynas rhwng oedolyn a phlentyn hefyd. Trwy ddarparu sgaffaldio, mae oedolion yn cefnogi archwilio a dysgu plant ac yn darparu'r lefel gywir o gysur a chefnogaeth. Trwy'r rhyngweithiadau hyn mae plentyn yn profi perthynas fel man diogel – lle gall deimlo ei fod yn cael ei garu a'i amddiffyn a theimlo'n ddiogel ac yn saff[4]. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder iddo archwilio'r byd o'i gwmpas.

> **"Trwy'r rhyngweithiadau hyn mae plentyn yn profi perthynas fel 'man diogel' – lle gall deimlo ei fod yn cael ei garu a'i amddiffyn a theimlo'n ddiogel ac yn saff."**

### Cyfathrebu ag eraill

Gall sgaffaldio gefnogi sgiliau cyfathrebu plant. Mae oedolion sy'n gofyn cwestiynau penagored neu'n darparu awgrymiadau llafar yn helpu plant i brosesu syniadau a datblygu sgiliau iaith mynegiannol.

### Ffocysu ein meddyliau

Gall sgaffaldio gefnogi dysgu a datblygiad plentyn. Efallai y byddwn yn sgaffaldio plentyn i gyflawni tasg y mae am ei chyflawni ei hun – dringo darn o offer y mae am ei archwilio yn y parc, efallai. Neu efallai y byddwn yn ffocysu ar nod a osodir gan oedolion, fel gwisgo ei got a'i esgidiau. Y naill ffordd neu'r llall, mae sgaffaldio'n golygu cael eich arwain gan anghenion a galluoedd y plentyn.

Mae sgaffaldio'n cydnabod bod plant yn dysgu orau pan fyddan nhw'n gorfod defnyddio eu meddwl ac yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â'r byd o'u cwmpas[5,6]. Trwy ganiatáu i blentyn wneud mwy ar ei ben ei hun, rydyn ni'n rhoi mwy o gyfrifoldeb a galluedd iddo, sy'n gyffredinol yn rhoi ymdeimlad o foddhad i'r plentyn ac yn ei helpu i ddatblygu ei hyder.

Oherwydd bod sgaffaldio'n helpu plant i wneud pethau drostyn nhw eu hunain, mae hefyd yn cefnogi sgiliau fel ffocysu sylw[7], datrys problemau a dyfalbarhau[8].

### Archwilio'r byd

Pan fydd oedolion yn defnyddio sgaffaldio llai "rhagnodol" - gan gynnig cefnogaeth heb gymryd drosodd - maen nhw'n gwneud lle i archwilio, chwilfrydedd a dyfalbarhad plant. Wrth i blant gael blas ar feistroli tasg, byddan nhw'n datblygu hyder ac yn teimlo'n fwy grymus i roi cynnig ar bethau newydd.

## Mae sgaffaldio'n helpu plentyn i deimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei garu.

Pan fyddwn yn darparu sgaffaldio, rydyn ni'n dangos i blant ein bod yn credu yn eu potensial, ac y gallan nhw ddibynnu arnon ni i ddarparu cymorth a chefnogaeth. Mae hyn yn cefnogi eu hyder cynyddol ynddyn nhw'u hunain, ac ymddiriedaeth yn y bobl o'u cwmpas.



# Defnyddio Sgaffaldio yn ymarferol

Fel ymarferydd sy'n gweithio gyda theuluoedd, efallai y byddwch chi'n cyflwyno'r syniad o sgaffaldio i helpu rhoddwyr gofal i adfyfyrio ar sut i addasu eu disgwyliadau, ac i gefnogi lefel datblygiad eu plentyn.

Gallai sgaffaldio helpu teulu i leihau ffynonellau rhwystredigaeth. Weithiau mae plentyn yn rhwystredig oherwydd nad oes ganddo'r galluedd y mae ei eisiau, neu mae rhiant yn rhwystredig nad yw plentyn yn gwneud rhywbeth y mae wedi gofyn iddo ei wneud. Gallai sgaffaldio helpu teulu i ddod o hyd i dir canol mwy cyfforddus.




Os ydych chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, gallech ystyried sut rydych chi'n sgaffaldio dysgu plant ac yn addasu i lefel datblygiad pob plentyn. Sut ydych chi'n camu i mewn - neu'n camu i ffwrdd - i helpu plentyn i ymestyn i alluoedd newydd?

Os ydych chi eisiau siarad am sgaffaldio mewn termau symlach, gallech siarad am arweiniad ysgafn, rhannu pethau'n gamau, rhoi help llaw, a chamu yn ôl.

# Cyfeiriadau

**1.** Wood, D., Bruner, J. S., & Ross, G. (1976). The role of tutoring in problem solving. Journal of child psychology and psychiatry, 17(2), 89-100.

**2.** Vygotsky, L. S. (1978). Mind in society. Cambridge, MA: Harvard University Press.

**3.** Williams, S. T., Mastergeorge, A. M., & Ontai, L. L. (2010). Caregiver involvement in infant peer interactions: Scaffolding in a social context. Early Childhood Research Quarterly, 25(2), 251-266.

**4.** Bowlby, J. (1988). A secure base: Parent-child attachment and healthy human development. Basic Books.

**5.** Hassinger-Das, B., Hirsh-Pasek, K., & Golinkoff, R. M. (2017). The case of brain science and guided play. YC Young Children, 72(2), 45-50.

**6.** Baker, S. T., Le Courtois, S., & Eberhart, J. (2023). Making space for children's agency with playful learning. International Journal of Early Years Education, 31(2), 372-384.

**7.** Bernier A, Carlson SM, Whipple N. From external regulation to self-regulation: Early parenting precursors of young children's executive functioning. Child Development. 2010; 81(1): 326-339.

**8.** Bibok MB, Carpendale JIM, Muller U. Parent scaffolding and the development of executive function. New Directions in Child and Adolescent Development. 2009; 123: 17-34.